Cofnodion o Gyfarfod Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir , Llandeilo ar Nos Fercher ,Mawrth yr 2il 2005 am 7.30 pm.

Presennol: Maer Ros Bellamy, Dirprwy Faer Colin Jenkins, Cadeirydd Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Pam Steane Price, Cyng Hugh Towns, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy Cyng Richard Wallace, June Stait, Clerc.

Ymddiheuriadau: Cyng Paul Faulkner

.

6405/Mawrth/05 Cyfrifon i'w dilysu :

Cytunwyd ar dalu y cyfrifon canlynol , a dalwyd eisoes er mwyn cyrraedd dyddiad cau y cymhorthdal i'r Derbyniad Treftadaeth.:

Crumbs anfoneb rhif 06, dyddiedig 11eg Chwef 05, taliad y bwffe i'r derbyniad	£175.00
Dewis anfoneb 163, am gyfieithu gwahoddiad i'r derbyniad :	£ 5.43
Cambria anfoneb 15/89 am arddangosfa treftadaeth :	£500.00
Dewis anfoneb 171, am gyfieithu ar y pryd yn y derbyniad :	£ 56.00
Co-op Llandeilo, taleb am y gwin a'r ddiod ysgafn i'r derbyniad :	£ 51.13
Costau'r Maer wrth ddychwelyd platiau'r bwffe :	£ 8.50

6406/Mawrth/05 Cyfrifon I'w talu :

Cytunwyd ar dalu'r cyfrifon canlynol :

Dewis anfoneb 162/165 am gyfieithu cofnodion dyddiedig 3/11 a 16/11:	£53.13
Dewis anfoneb 176 am gyfieithu cofnodion dyddiedig 18 Ion 05:	£37.08
Dewis anfoneb 154 am gyfieithu cofnodion dyddiedig Gorff a Hyd 04 :	£63.48
Dewis anfoneb 177 am gyfieithu cofnodion 21 Rhag 04 Cyfarfod Llawn:	£64.17
Dewis anfoneb 178 am gyfieithu cofnodion dyddiedig Chwef Cynllunio 05:	£24.75
Dewis anfoneb 179 am gyfieithu cofnodion dyddiedig Chwef Cyllid 05 :	£28.47
Dewis anfoneb 181 am gyfieithu cofnodion dyddiedig Ion Cynllunio 05 :	£12.90
Dewis anfoneb 182 am gyfieithu cofnodion dyddiedig Ion Cyllid 05 :	£22.11
Orchardweb anfoneb ddyddiedig 1af March 05:	£15.00

6407/Mawrth/05 Tâl y Clerc

Cytunwyd ar dalu anfoneb y Clerc LTC6/05 am y swm o £718.82 . £718.82

6408/Mawrth/05: Rhoddion :

Cytunwyd ar y rhoddion canlynol:

Cruse, Sir Gaerfyrddin (pŵer: s 137, Deddf 1972)	£100
Cynllun Bobby Van (pŵer: s.31 ,Deddf 1997)	£100
Eisteddfod Genedlaethol (s145,Deddf 1972)	£100
KRUF (s137, 1972 Act)	£100
Ambiwlans Awyr Cymru (s137, Deddf 1972)	£100
Antur Cwm Taf /Tywi a Choed Cymru (s137 1972 Deddf)	£100
Grŵp Gyrrwyr Anabl Llandeilo (s137 1972 Deddf)	£200

6409/Maw /05 Mantolenni Banc

Cofnodwyd yr adroddiad canlynol ar sefyllfa ariannol y Cyngor:

Dyddiad	Manylion	FFIGURAU'R MIS	Ffigwr Cronnus	SYLWAD
1 Chwef 05	Incwm Ion 05	0	52,254.47	cynnwys precept Ion?
	Llai gwariant yn cynnwys TAW Rhag 04	7432.71	52,980.57	TAW £1964.69
	GWEDDILL	-7432.71	-726.10	
	Incwm sy'n aros?			11K Ion precept
	Treuliau heb eu talu?			
		Ein Llyfrau:	Y Banc yn dweud	
	Mantolen Banc ar	28 Chwef 05	2nd March 05	
	Cyfrif cyfredol Rhif : 21062123	12,413.80	14,254.88	Cyn gweld
	Cyfrif gosod : 51062530	23,406.38	23,406.38	Cyfriflenni Banc
	Cyfrif y Maer: 61377639	1,471.74	1,446.85	Chwefror
	Cyfanswm Gweddill	37,291.92	39,108.11	

Cytunodd y cynghorwyr ar symud £8,000 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif gosod.

6410/Maw/05 Gohebiaeth:

Rhent Archaeoleg Cambria wedi'i dalu yn Ionawr a Hydref;nodwyd fod hynny i'w weld ar y mantolenni Banc.

6411/Maw/05 Costau Goleuadau'r Nadolig

Derbyniwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd yn gofyn am gyfraniad tuag at y gost o gysylltu gyda a defnyddio ei thrydan i oleuo'r goleuadau Nadolig yn y dref . Cytunwyd ar daliad o £25.

6412/Maw/05 Derbyniad Treftadaeth

Nodwyd gan y Cynghorwyr i'r Derbyniad Treftadaeth gostio £920.06 mewn cyfanswm , gyda chymhorthdal o £680 gan y Cyngor Sir tuag at y costau . Mynychwyd gan 63 o bobl a gyfrannodd syniadau ynglŷn â lleoliad Arwyddion Treftadaeth o gwmpas y dref. Roedd yr achlysur yn hynod o lwyddiannus. Trefnwyd gan y Cyngor Sir noson i anrhydeddu prosiectau cymunedol dan y Gwobrau Cymorthdaliadau Brenhinol ar y 17eg o Fawrth am 7pm yng Ngwesty Parc y Strade. Mynychir gan y Maer, y Dirprwy Faer a'r Cyng David Jones.

6413/Maw/05 Myfyrwyr Ffrangeg

Cysylltwyd y Cyngor gan dri o fyfyrwyr o Ffrainc am fanylion am fusnesau yn y dref lle y byddai'n bosib iddynt wneud archwiliad o'r farchnad yn ystod y cyfnod Mawrth 22 ain i'r 29 ain. Anfonir ateb iddynt gan ddweud bod lle yn bosib iddynt yn y farchnad ar ddydd Gwener ac fe anfonir enwau a chysylltiadau busnes atynt maes o law

6414/Maw/05 Rhent y Swyddfa

Cynghorir y Cyngor fod rhent yn ddyledus am ddefnydd o swyddfa gan Gyngor y Dref yn y Ganolfan Addysg Gymunedol gan i'r swyddfa gael ei defnyddio am bum mis. Yn ôl pob tebyg y gost fyddai £28 y mis, felly £ 140 hyd yma, gyda £10 am 500 o lungopïau. Anfonir anfoneb yn y dyfodol agos.

6415/Maw/05 Sustemau Rheolaeth Mewnol

Argymhellir gan yr archwilwyr y dylai rheolaeth fewnol ac asesiad risg gael eu gwneud gan y cyngor. Gofynnwyd am gopi o'r templed , ond nid oedd wedi cyrraedd eto.

6416/Maw/05 Cynllun Plannu Coed– problem ysbwriel

Nodwyd gan y cynghorwyr fod ysbwriel wedi casglu yn yr ardal a glustnodwyd i blannu coed, ac y byddai angen clirio cyn cychwyn ar y plannu. Byddai angen gofyn i'r Cyngor Sir am gyflenwad o finiau ysbwriel, ac fe anfonir llythyr at ysgol Tregib yn gofyn i'r prifathro i annog y disgyblion i gymryd balchder yn eu hardal ac i osod sbwriel yn y biniau.